PEAK CYMRU

# *Polisi Tâl ar gyfer Staff Cyflogedig a Llawrydd*

## *Cyd-destun*

Mae cyfraddau tâl ar gyfer sector y celfyddydau, yn debyg i'r sector elusennol, yn isel o gymharu â llawer o sectorau eraill. Yn aml, mae gwahaniaeth mawr rhwng y rhai sy'n cael eu talu fwyaf a'r lleiaf, a diffyg llwybrau dilyniant, meincnodi, tryloywder ac amddiffyniad yn erbyn chwyddiant. Mae polisi tâl Peak yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau yma, a gosod y cyfeiriad tuag at fwy o degwch yn unol â'n gwerthoedd a'n cynlluniau cydraddoldeb.

Mae dros 75% o incwm Peak yn mynd tuag at gyflogi staff llawrydd a chyflogedig; mae ansawdd, uchelgais ac effaith ein rhaglen yn dibynnu ar y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw, felly mae'n gwneud synnwyr y dylen ni fuddsoddi yn y bobl sy'n cyflawni gwaith ar ein rhan, cynnig cefnogaeth iddyn nhw ar gyfer eu llesiant, a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i gyflawni ymchwil, a datblygiad proffesiynol sy'n bodloni anghenion Peak ac yn eu helpu i ehangu eu hystod eu hunain o wybodaeth a sgiliau. Ein staff blaenorol a'r artistiaid rydyn ni'n gweithio gyda nhw yw ein llysgenhadon pennaf. Un rhwystr rhag gweithredu polisi tâl teg yw fforddiadwyedd. Mae model ariannu presennol Peak yn fregus, a does ganddon ni ddim o'r mecanweithiau er mwyn cynhyrchu cyllid ychwanegol yn hawdd er mwyn cynnig cynnydd cyflog ar sail chwyddiant neu berfformiad, felly mae angen i ni feddwl am yr egwyddorion y byddwn ni'n seilio'r gwaith o fynd i'r afael â'r heriau economaidd presennol arnynt.

## *Staff Cyflogedig*

***Egwyddorion a chyfraddau –*** Mae ein polisi tâl ar gyfer **staff cyflogedig** wedi'i adeiladu ar yr egwyddorion canlynol:

**1.** Fel Cyflogwr Cyflog Byw achrededig, fydd neb sy'n gweithio i Peak yn cael eu talu'n llai na'r gyfradd yma sy'n cael ei chyhoeddi'n flynyddol (£10.90 ar hyn o bryd ac yn cynyddu yn unol â chwyddiant). Yn ddiweddar, rydyn ni wedi anelu i dalu cyfradd o £15 yr awr o leiaf i aelodau staff, sy'n cyfateb â £27,300 y flwyddyn ar gyfer contract 35 awr yr wythnos.

**2.** Y gymhareb dâl rhwng yr uchaf a'r isaf yw x 2. Gan mai £15 yr awr yw ein hisafswm cyflog, yr uchafswm cyflog ar gyfer aelod o staff cyflogedig fyddai £30 yr awr, sef £54,600 y flwyddyn ar gyfer contract safonol 35 awr yr wythnos. Mae hyn yn uwch na'r terfynau cyflog presennol.

**3.** Mae unrhyw wahaniaeth rhwng cyfraddau cyflog yn cael ei gysylltu'n dryloyw â ffactor materol. Ymhlith y ffactorau materol ar gyfer y polisi yma mae hyd y gwasanaeth / contract, sgiliau a chymwysterau, perfformiad a lefelau cyfrifoldeb. Cyfrifoldeb yw'r ffactor sy'n cael ei ystyried fel y mwyaf perthnasol wrth ystyried cyfradd wahaniaethol yn Peak.

**4.** Mae rolau arweinyddiaeth greadigol yn cynnwys oriau contract penodedig ar gyfer ymchwil neu hyfforddiant wedi'i deilwra y cytunwyd arnynt, gan gynnwys cyllideb deithio bersonol o £125 y mis. *Ar gyfer y swyddi yma, awgrymir 10% o'r oriau a gontractiwyd o leiaf.* Mae swyddi eraill staff yn cynnwys cyllideb bwrpasol ac oriau contract ar gyfer hyfforddiant yn ymwneud â gwaith sy'n gyfwerth â chaniatáu o leiaf 1 diwrnod y chwarter, a chyllideb deithio bersonol o £125 y chwarter.

**5.** Mae Peak yn anelu i fynd i'r afael â phwysau chwyddiant drwy ymrwymo i adolygiad blynyddol o gyfraddau chwyddiant. Er na all Peak warantu y bydd ganddo'r adnoddau ariannol i wneud dyfarniadau

cyflog blwyddyn ar flwyddyn i fynd i'r afael â chynnydd mewn costau byw, bydd yn asesu fforddiadwyedd codiad cyflog mewn ffordd dryloyw o fewn ei ragolwg ariannol, ac yn ystyried newidiadau strwythurol i gontractau i gefnogi staff pan fydd fforddiadwyedd yn golygu na all weithredu codiad cyflog cyfradd chwyddiant.

***Cynnydd*** – Mae Peak yn gosod ystod cyflog ar gyfer disgrifiadau swyddi parhaol; mae cynnydd tuag at uchafswm cyflog yn cael ei lywio gan yr arfarniad blynyddol a bydd yn cael ei asesu mewn perthynas â chynnydd mewn cyfrifoldebau a fforddiadwyedd.

***Arfarniad –*** Mae Peak yn cynnal arfarniad blynyddol i staff cyflogedig, a diben hynny yw: gwahodd cyflogeion i hunanwerthuso eu perfformiad yn erbyn eu disgrifiad swydd; adolygu cynnydd a pherfformiad yn erbyn targedau a chynlluniau hyfforddiant, a gosod targedau hyfforddiant a gwaith newydd, o fewn cyllidebau hyfforddiant personol. Cynhelir yr arfarniad gan ymddiriedolwr / ymgynghorydd allanol ac aelod arall o staff Peak. Mae'r adolygiad o ddisgrifiadau swydd yn gweithredu fel mecanwaith y gellir cydnabod a gwobrwyo cyfrifoldebau ychwanegol drwyddo. Rydyn ni'n cynnig mecanwaith tebyg i staff llawrydd rheolaidd (sy'n gweithio drwy gontract llawrydd gyda ni am gyfnod o fwy na blwyddyn) i lywio eu datblygiad personol.

***Gwyliau i staff cyflogedig –*** Mae'r lwfans blynyddol ar gyfer staff cyflogedig yn seiliedig ar 25 diwrnod a gwyliau banc statudol ar gyfer contract llawn amser o 35 awr yr wythnos, ar sail pro rata yn unol â'r diwrnodau / oriau dan gontract a weithiwyd. Mae cyfnod cau blynyddol y Nadolig, rhwng Gŵyl San Steffan a Dydd Calan, yn cael ei roi yn ogystal â'r lwfans yma.

***Tâl Mamolaeth a Thadolaeth –*** Mae polisi cyfredol Peak yn gyson â Thâl Mamolaeth Statudol. Bydd hyn yn cael ei adolygu ym mis Mehefin 2023.

***Gweithio Hyblyg –*** Mae Peak yn cynnig gweithio hyblyg e.e. rhan amser, amser hyblyg, oriau amrywiol, rhannu swydd, oriau cywasgedig neu oriau blynyddol, ochr yn ochr â chydnabod bod presenoldeb corfforol weithiau'n ofynnol yn sgil natur ein gwaith.

***Sut rydyn ni'n gosod graddfeydd cyflog –*** Rydyn ni'n defnyddio taenlen bandio cyflog i bennu/graddio cyfrifoldebau.

## *Egwyddorion a Chyfraddau Llawrydd*

Mae'r cyfraddau tâl **llawrydd** a delir gan Peak yn uwch na'r cyfraddau tâl staff cyflogedig. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith nad yw gweithwyr llawrydd yn cael manteision cyfraniadau Pensiwn, tâl salwch neu wyliau, nac arfarniad blynyddol (er yn ymarferol ein bod yn cynnig arfarniadau i weithwyr llawrydd rheolaidd). Mae ein polisi tâl ar gyfer **staff llawrydd** wedi'i adeiladu ar yr egwyddorion canlynol:

1. mae diwrnodau cynllunio, ymchwil a gwerthuso wedi'u cynnwys mewn contractau llawrydd
2. telir gweithwyr llawrydd am gyfarfodydd ychwanegol
3. Telir £250 y diwrnod i artistiaid llawrydd am hyd at 10 diwrnod o waith dan gontract
4. Telir £200 y diwrnod i artistiaid llawrydd ar gyfer contractau sy'n fwy na 10 diwrnod o waith
5. Telir £250 y diwrnod i Ymgynghorwyr Llawrydd ac Artistiaid Cyswllt
6. Telir £75 i artistiaid am ymweliadau stiwdio

## *Pobl Ifanc*

O bryd i’w gilydd, rydyn ni’n gwahodd pobl ifanc rydyn ni’n gweithio gyda nhw ar draws ein rhaglen artistig i gymryd rhan mewn gweithgareddau llywodraethu fel recriwtio, a byddan nhw’n cael eu talu ar yr un gyfradd ag artist llawrydd. Nid yw bwrsariaethau a delir i fodloni anghenion hygyrchedd ac i gefnogi pobl ifanc i gymryd rhan wedi’u cynnwys yn y polisi yma. Bydd polisi ar wahân ar gyfer tâl Pobl Ifanc yn cael ei ddatblygu yn 2023.

*Diweddarwyd ddiwethaf 28.02.23 JW LH MA*